**PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL**

**20 Ebrill 2016**

Yn bresennol: Mrs M Thomas.( Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Cynghorwyr P Harries a P J Morgan, Mr A E Sangster a’r Cynghorydd A Wilcox.

[Cyrhaeddodd Ms C Gwyther adeg ystyried Adroddiad 16/02 Prosiect Ail Greu Cynefin Penlan (gweler Cofnod 5)]

(Swyddfa’r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12:30pm – 2.25pm)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorwyr ST Hudson ac ML Evans.

2. **Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau**.**

3. **Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Ragfyr 2015 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

Nodwyd o dan y flaenraglen waith y byddai adroddiadau ar berfformiad llwybr yr arfordir a'r opsiynau ar gyfer ariannu yn y dyfodol, ac y byddai asesiad o raglen ysgolion yr Awdurdod yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed o Ragfyr 2015.

4. **Adroddiad ar y Rhaglen Cadw Golwg ar y Frân Goesgoch 2015**
Dywedwyd mai yng Nghymru y mae 50% o boblogaeth y frân goesgoch yng ngwledydd Prydain, ac o’r ffigur hwnnw mai yn Sir Benfro y mae rhyw un rhan o dair o boblogaeth Cymru. Oherwydd hyn, roedd tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y Frân Goesgoch yn Sir Benfro. Gan fod y frân goesgoch yn rhywogaeth mor bwysig, roedd poblogaeth y frân goesgoch yn y Parc Cenedlaethol wedi bod yn destun gwyliadwriaeth yn flynyddol ers dechrau'r 1980au. Roedd y cynllun monitro yn cyflwyno adroddiadau ar niferoedd a dosbarthiad y parau bridio o frain coesgoch a’r adar a fagwyd (sef nifer y cywion a adawodd y nyth) o fewn y Parc Cenedlaethol. Eglurodd y Swyddog Bioamrywiaeth bod strategaeth brân goesgoch wedi ei llunio yn 1994 oedd yn pennu protocol i safoni dulliau o wyliadwriaeth.

Roedd yr adroddiad, oedd wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau, yn nodi bod wyth o diriogaethau ychwanegol wedi'u meddiannu yn 2015 o'i gymharu â 2014, a nifer uwch o barau â wyau a chywion ifanc yn y nyth. Roedd nifer y cywion a oroesodd ychydig yn is ar y cyfan nag yn 2014 oherwydd methiannau hwyr, o bosibl oherwydd effaith ysglyfaethu neu effaith tywydd gwael. Amcangyfrifwyd mai nifer yr adar nad ydynt yn bridio oedd rhwng 65 a 76 o adar, yr uchaf ers blynyddoedd lawer. Ar draws y DU, poblogaeth Sir Benfro oedd yr unig boblogaeth oedd wedi cynyddu dros y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2002 a 2012. Roedd y boblogaeth felly yn parhau i ddangos arwyddion da o adferiad ers gaeafau difrifol 2009/10 a 2010/11.

Aeth y swyddog rhagddo i egluro bod y prosiect Gwarchod Llethrau'r Arfordir a'r rhwydwaith anifeiliaid pori a redir gan yr Awdurdod yn bwysig o ran darparu safleoedd bwydo addas ar gyfer y frân goesgoch. Hefyd yn bwysig i lwyddiant y rhywogaeth oedd y gwaith a wneir gyda dringwyr i bennu tymor 'ar gau' pan nad oedd y safleoedd nythu ar y clogwyni yn cael eu tarfu.

Mynegodd yr Aelodau eu bod wedi mwynhau darllen yr adroddiad ac yn falch o'r gwaith oedd wedi'i gyflawni o ran darparu cynefinoedd a'r gwaith gyda dringwyr. Gofynnwyd a oedd unrhyw gyswllt rhwng y gwahanol ardaloedd yn y DU i rannu arferion gorau, a dywedodd y swyddog ei bod yn ddiweddar wedi mynychu diwrnod Rhwydwaith y Frân Goesgoch yng Nghymru a bod grŵp y DU hefyd yn bodoli.

**NODWYD.**

**5. Prosiect Ail Greu Cynefin Penlan: Arolwg Estynedig Cam 1, Asesiad o Gyflwr ac Argymhellion ar gyfer Rheolaeth yn y Dyfodol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn 2001 wedi cynnal prosiect arbrofol dros 5 mlynedd i ail-greu rhostir a choetir brodorol ar goetir 70ha o goed Sbriws Sitka sy'n edrych dros Gwm Gwaun. Yn 2015, ddeng mlynedd ers cwblhau'r prosiect, roedd y Swyddog Bioamrywiaeth wedi comisiynu ymgynghorydd allanol i gynnal arolwg o'r llystyfiant ac asesiad bioamrywiaeth ar y cynefinoedd oedd newydd eu creu, yn ogystal ag opsiynau ar gyfer rheoli'r safle yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad, oedd wedi'i ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor, wedi dod i'r casgliad bod y prosiect wedi llwyddo i gyflawni ei amcanion gwreiddiol o greu cynefinoedd, a bod posibilrwydd y bydd nifer o blanhigion prin sydd ar Carningli gerllaw yn tyfu yma yn ogystal.

Aeth yr adroddiad ymlaen i drafod dau brif senario ar gyfer rheoli'r safle yn y dyfodol – gadael llonydd a pheidio ag ymyrryd, a rheoli da byw yn pori - o safbwynt cadwraeth bywyd gwyllt. Hefyd roedd yr adroddiad yn

ystyried mecanweithiau ar gyfer mwy o ddefnydd cymunedol o 'nwyddau a gwasanaethau' ecosystem yr ardal.

Byddai'r adroddiad yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer llunio cynllun rheoli newydd ar gyfer Penlan.

Gan ddiolch i'r swyddogion am adroddiad diddorol, gofynnodd yr Aelodau am y trefniadau tebygol o reoli'r safle yn y dyfodol, ac eglurodd y Swyddog Bioamrywiaeth mai'r tebygrwydd yw y byddai rhan o'r safle yn dychwelyd yn goetir yn y pen draw, ond bod manteision o ran cadwraeth natur yn y cyfamser. Byddai rhan o'r safle hefyd yn cael ei gadw fel rhostir oedd yn rhan o amcanion gwreiddiol y prosiect. Hefyd gofynnodd yr Aelodau a ellid defnyddio'r safle at ddibenion addysgol, a chytunodd y swyddogion bod potensial i'r safle gael ei ddefnyddio at y cyfryw ddibenion yn y dyfodol.

**NODWYD.**

## 6. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dîm y Rheolwyr a gan Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod pan gafodd y cynnydd diweddar a'r newidiadau eu nodi.

Nid oedd unrhyw risgiau newydd wedi'u hychwanegu ac nid oedd unrhyw risg wedi'i ddileu ers i'r Pwyllgor ystyried y Gofrestr ddiwethaf. Serch hynny, roedd un risg, sef effaith Safonau'r Gymraeg, wedi'i ostwng o ganolig (oren) i isel (gwyrdd). Cyfeiriodd y swyddog at dri risg oedd wedi cynyddu ychydig, a nodwyd gan 'saeth i fyny' a dau oedd wedi gostwng ychydig, a nodwyd gan 'saeth i lawr', ond ychwanegodd nad oedd y newidiadau hyn wedi bod yn ddigonol i addasu lliw y lefel risg.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â pharatoi cynlluniau wrth gefn a pharhad busnes dan risgiau 17 a 19, a chadarnhaodd y swyddogion bod hyn yn cyfeirio at yr angen am ddiweddaru'r cynlluniau presennol. Hefyd roedd un Aelod yn synnu bod patrwm y tueddiadau am y chwarter hwn o ran y risg o fethu â chyrraedd y targedau tai fforddiadwy yn sefydlog. Fodd bynnag, dywedodd y swyddogion er bod nifer yr unedau a adeiladwyd wedi cynyddu, roedd yn dal i fod yn is na'r targed.

**NODWYD.**

## 7. Adroddiad ar Berfformiad y cyfnod oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2016

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad adroddiad ar berfformiad Timau Cyfarwyddo, Cyflawni a Darganfod y Parc yn erbyn y canlyniadau strategol yn y Cynllun Gwella Rhan 1 am y flwyddyn oedd yn diweddu ar

31 Mawrth 2016 drwy ddefnyddio'r system Ffynnon o reoli perfformiad. Roedd yr adroddiad yn dangos canran y gwaith a gwblhawyd, ynghyd â'r statws Coch Melyn a Gwyrdd ar gyfer pob cam gweithredu. Roedd y camau ymlaen a gymerwyd ar bob un cam wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac roedd y rhan fwyaf o'r data yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau wedi'u cwblhau neu ar y gweill. Roedd y tywydd stormus yn gynharach yn y gaeaf wedi cwtogi rhywfaint ar raglen waith y gaeaf, ac ailgyfeiriwyd y staff i ddelio â nifer o goed oedd wedi cwympo ar y llwybrau troed a gerllaw iddynt. Llwyddwyd yn y cyfnod diweddar o dywydd sych i wneud iawn am lawer o'r amser a gollwyd. Roedd salwch staff wedi lleihau'r rhaglen hanesyddol o ddigwyddiadau. Roedd nifer yr ymwelwyr a'r refeniw yng Nghanolfan Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod ac yn Oriel y Parc yn llai na'r llynedd, er bod y nifer yng Nghaeriw, Castell Henllys ac yn Nhrefdraeth wedi cynyddu. Roedd cyfanswm nifer yr ymwelwyr wedi gostwng rhyw 2% a gwerthiant nwyddau wedi gostwng rhyw 7%, ond roedd y rhaglenni ysgolion wedi cynyddu 10%.

Yn olaf roedd y rhan fwyaf o'r mesurau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth Rheoli Datblygu yn uwch na'r targed. Holodd yr Aelodau a ddylid codi'r targedau, ond rhybuddiodd y swyddogion yn erbyn hynny oherwydd goblygiadau'r newidiadau yn ddiweddar yn y gwasanaeth cyn ymgeisio a'r risgiau os nad oedd targedau'n cael eu cyrraedd.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad perfformiad.

**8. Adolygu a gwerthuso'r prosiect Eich Parc (a ariannwyd o fis Mehefin 2012 i fis Mawrth 2016 gan y Loteri Fawr)**

Eglurodd Arweinydd y Tîm Darganfod mai nod y prosiect hwn oedd ategu a datblygu gwaith presennol yr Awdurdod ar gynhwysiant cymdeithasol, gan dargedu grwpiau a sefydliadau lleol sy'n gweithio gyda phobl oedd ymhlith y rhai mwyaf tebygol o wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i ystod eang o gyfleoedd yn yr awyr agored, ond yn enwedig o fewn y Parc Cenedlaethol.

Roedd Eich Parc yn ceisio ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau lleol i ddefnyddio'r awyr agored fel lle i gyflawni canlyniadau da ar gyfer eu cleientiaid, ac i feithrin gallu'r sefydliad i gynnal y gweithgaredd hwn yn annibynnol, neu gydag ychydig iawn o gymorth, yn y tymor hir.

Roedd copi o'r adroddiad gwerthuso terfynol wedi'i ddosbarthu i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion y rhai a fanteisiodd ar y prosiect Eich Parc ac mae'n cwmpasu ystod o safbwyntiau, o safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth, gwirfoddolwyr,

swyddogion a rheolwyr y sefydliadau ar draws Sir Benfro sy'n gweithio gyda chymunedau difreintiedig.

Ceisiodd yr adroddiad fesur pa mor dda yr oedd y prosiect wedi llwyddo i gael grwpiau a sefydliadau cynhwysiant cymdeithasol i gynyddu eu defnydd o'r awyr agored, gan ddod i'r casgliad bod llwyddiant wedi'i gyflawni o ran rhoi profiad a dargedwyd o'r Parc Cenedlaethol, cyfleoedd hyfforddiant pwrpasol a chymorth parhaus i unigolion, grwpiau a sefydliadau.  Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau, sefydliadau ac unigolion i gael y gorau allan o'r awyr agored, a'r camau gweithredu yn y dyfodol i geisio cynnal a datblygu gwaith y prosiect Eich Parc.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Sally Elliot ac i Jo Swift o Elliot Hill Care Cyf a eglurodd eu bod o'r farn bod eu cwmni yn cydweddu'n berffaith ag amcanion yr Awdurdod, a diolchwyd i'r swyddogion am eu cymorth wrth gyflwyno'r rhaglen.  Amlinellodd Ms Elliot rai o'r gweithgareddau a wneir gan y staff a'r cyfranogwyr ac eglurodd bod y defnydd o'r awyr agored wedi cael ei ychwanegu at ddisgrifiadau swydd y staff yn sgîl y rhaglen, a bod nodau'r canlyniadau wedi'u hymgorffori yn y cynlluniau gofal.

Gofynnodd yr Aelodau am y lefel o gydweithio gyda grwpiau eraill yn y sir, megis yr Urdd.  Atebodd y swyddogion bod lefel resymol o weithio ar y cyd, a bod nifer fawr o rwydweithiau yn bodoli.  Aethant rhagddo i esbonio bod prosiect newydd yn cael ei ddatblygu drwy gais i'r Loteri ac y byddai hwn yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth a gwirfoddoli.  Roedd yr Aelodau yn gofyn beth oedd y sefyllfa wrth gefn o ran cynnal y cysylltiadau a wnaed drwy'r prosiect Eich Parc os na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol.  Atebodd y swyddogion y byddai rhywfaint bach o gymorth ar gael drwy gynnal diwrnodau hyfforddiant bob hyn a hyn, ac ati. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai lefel y flaenoriaeth a roddir i brosiectau fel hyn yn y tymor canolig i'r hirdymor yn benderfyniad y byddai'n rhaid i'r Aelodau ei wneud.

**NODWYD.**

**9. Blaenraglen Waith**

Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai'r pynciau canlynol gael eu cynnwys ym mlaenraglen waith y Pwyllgor dros y misoedd nesaf:
Llwybr yr Arfordir; Rhaglen Ysgolion; cyflwyniad ar y Rhywogaethau sydd mewn Perygl; Gwella Bioamrywiaeth; Monitro'r Cyfryngau – gwerthuso'r sylw yn y wasg; Rheoli Hamdden gyda Phartneriaid megis yr MoD; Dewch i Gerdded; Fforwm Arfordir Sir Benfro; rhaglen Hyfforddeiaeth Sgiliau ar Waith; Gweithgareddau Parcmyn Ifanc.

Gofynnodd yr Aelodau am gyflwyniad ar y gwaith o greu cyswllt rhwng safleoedd a phwysigrwydd coridorau bywyd gwyllt, a chytunodd y Prif

Weithredwr y gallai hyn fod yn rhan o adroddiad ar waith y Gwasanaeth Wardeiniaid.

**PENDERFYNWYD** y byddai rhai adroddiadau gan y rhai sydd ar y rhestr uchod, gan gynnwys adroddiadau ar Lwybr yr Arfordir a'r Rhaglen Ysgolion, yn cael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

**10. Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**
**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.